## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**<u>Adroddiad i'r:</u>** **Cabinet**

**<u>Dyddiad y cyfarfod:</u>** **7 Tachwedd 2023**

**<u>Teitl:</u>** **Safle Cartref Gofal Preswyl Yr Hafod, Aberteifi – Astudiaeth Ddichonoldeb**

**<u>Pwrpas yr adroddiad:</u>** **Gofyn am ganiatâd i benodi ymgynghorwyr i wneud astudiaeth ddichonoldeb gan ddarparu opsiynau ar gyfer ailddatblygu yn unol ag amcanion strategol y Strategaeth Llesiant Gydol Oes.**

**<u>Er:</u>** **Penderfyniad**

**<u>Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:</u>**
**Y Cynghorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Gydol Oes a Llesiant**

**<u>Cyflwyniad</u>**

Yn dilyn yr Adolygiad o Gartrefi Gofal Preswyl, ar 28 Gorffennaf 2015 cymeradwyodd y Cabinet yr argymhelliad canlynol ynghylch Cartref Gofal Preswyl Yr Hafod:

*"Argymhellir bod safle'r Hafod yn cael ei ailddatblygu i fodloni'r newid o ran y galw yn unol â Dull Gweithredu 7* sef datblygu cartrefi newydd ac arbenigol ar safleoedd presennol. Bydd yr Awdurdod yn neilltuo arian cyfalaf i sicrhau bod adeiledd a strwythur y cartref yn gynaliadwy yn y tymor canol."*

** Dull Gweithredu 7*
*Ailddatblygu'r safleoedd presennol, naill ai i gyd yr un pryd neu mewn sawl cam, fel naill ai Lleoliadau Gofal Cofrestredig wedi'u hadeiladu o'r newydd gyda gwelyau Henoed Bregus eu Meddwl a Nyrsio, neu fel cynlluniau Tai Arbenigol.*

Hyd yn hyn, ni fu'n bosib bwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn oherwydd roedd diffyg arian cyfalaf ar gael i gefnogi datblygiadau o'r fath.

Mae cyfle nawr ar gael i'r awdurdod gael cyllid drwy Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gwblhau astudiaeth ddichonoldeb i ddechrau, er mwyn archwilio'r opsiynau gorau ar gyfer ailddatblygu'r Hafod yn unol â'r Strategaeth Llesiant Gydol Oes, gan fodloni anghenion poblogaeth Ceredigion ar hyn o bryd ynghyd ag anghenion y boblogaeth yn y dyfodol.

Bydd yr astudiaeth ddichonoldeb yn cynnwys Cartref Gofal Preswyl Yr Hafod a Chanolfan Meugan sydd ynghlwm wrth y cartref.

**Cynnal astudiaethau dichonoldeb i ddatblygu cynigion prosiect cyfalaf integredig:**

Nod yr astudiaeth ddichonoldeb yw datblygu opsiynau ar gyfer ailddatblygu Cartref Preswyl Yr Hafod yn Aberteifi ar sail Gydol Oes. Mae angen comisiynu ymgynghorydd i ddatblygu opsiynau drwy astudiaeth ddichonoldeb gan nodi defnydd posib ar gyfer y safle yn y dyfodol. Bydd yr astudiaeth ddichonoldeb yn mynd ati'n drylwyr i archwilio hyfywedd integreiddio mentrau cymdeithasol o fewn y cyfleuster ynghyd â chynyddu'r llety sydd ar gael er mwyn bodloni anghenion ehangach a mwy cymhleth. Nod y fenter yw creu amgylchedd cynhwysol a chynaliadwy sydd nid yn unig yn darparu lleoliadau preswyl hanfodol, ond sydd hefyd yn datblygu cyfleoedd ystyrlon i ymgysylltu â'r cyhoedd o safbwynt gwasanaethau gofal iechyd a chymdeithasol ehangach, partneriaid yn y trydydd sector a'r gymuned ehangach. Yr opsiynau fyddai'n cael eu harchwilio byddai ailddatblygu'r adeilad presennol neu adeiladu cyfleuster newydd ar y safle presennol.

Bydd y rhaglen hon hefyd yn cyd-fynd â'r datblygiad sy'n mynd rhagddo yng Nghanolfan Llesiant Aberteifi oherwydd lleoliad Yr Hafod, gan greu cyfleoedd pellach i ddarparu gwasanaethau integredig.

Y camau nesaf fydd:

- Caffael ymgynghorydd / ymgynghoriaeth i gwblhau'r astudiaeth ddichonoldeb gychwynnol.
- Cyflwyno canfyddiadau'r astudiaeth ddichonoldeb i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach cyn dod yn ôl i'r Cabinet.
- Datblygu achos busnes yn unol â'r gofynion cyllido a chwblhau unrhyw ymgynghori sy'n angenrheidiol er mwyn casglu barn y preswylwyr, teuluoedd, staff, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**

Nid oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau ar hyn o bryd, ond bydd yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r astudiaeth ddichonoldeb.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Mae Strategaeth Llesiant Gydol Oes yr Awdurdod Lleol yn nodi'r weledigaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Yn ogystal mae nifer o strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol yn darparu targedau a mesurau tymor byr a hirdymor sydd angen eu hystyried fel rhan o'r astudiaeth ddichonoldeb. |
| **Cydweithio:** | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi gofynion newydd ar yr holl sefydliadau sy'n comisiynu ac yn darparu gofal. Mae Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru'n cydweithio er mwyn ymateb i'r gofynion hynny, gan wella gwasanaeth a'u cyfuno gymaint â phosib er mwyn darparu'r canlyniadau gorau i'n dinasyddion. |
| **Cynnwys:** | Bydd cydweithio rhwng partneriaid a rhanddeiliaid yn rhan ganolog o'r ymgynghoriad a'r cynllun gweithredu. Bydd y cydweithio pennaf rhwng cydweithwyr yn y sector cyhoeddus gan |

| | |
|---|---|
| | gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, sefydliadau'r trydydd sector a swyddogion ar draws yr awdurdod. |
| **Atal:** | Bydd yr astudiaeth ddichonoldeb yn archwilio cyfleoedd atal fel rhan o amcanion y gwaith ailddatblygu. |
| **Integreiddio:** | Bydd dadansoddiad rhanddeiliaid yn cael ei gwblhau fel rhan o'r cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu gan sicrhau bod y rhanddeiliaid allweddol yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol y prosiect. |

**Argymhellion:**

1. **Dylid cymeradwyo'r cynnig i fwrw ymlaen â chwblhau astudiaeth ddichonoldeb i archwilio'r opsiynau ar gyfer ailddatblygu Cartref Gofal Preswyl Yr Hafod, Aberteifi yn unol â'r Strategaeth Llesiant Gydol Oes.**
2. **Dylid cyflwyno canfyddiadau'r astudiaeth ddichonoldeb a'r cynllun arfaethedig i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach cyn dod yn ôl gerbron y Cabinet.**

**Rhesymau dros y penderfyniad:**
**Er mwyn galluogi i'r Awdurdod fwrw ymlaen gyda'r gwaith o ailddatblygu Cartref Gofal Preswyl Yr Hafod yn unol â'r Strategaeth Llesiant Gydol Oes.**

**Trosolwg a Chraffu:**
Amherthnasol

**Fframwaith Polisi:**
Y Strategaeth Gorfforaethol
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol
Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio
Siarter Anableddau Dysgu Gorllewin Cymru
Cod Ymarfer Awtistiaeth
Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021
Strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio: cynllun cyflawni
Y Cynllun Gweithredu Anableddau Dysgu (2022 – 2026)
Gwella Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (COVID-19: Edrych tua'r dyfodol)

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Dim

**Goblygiadau Cyfreithiol:**
Dim

**Goblygiadau Staffio:**
Dim

**Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:**
Yn gysylltiedig â'r defnydd o Gartref Preswyl Yr Hafod yn y dyfodol

**Risg(iau):**
Bydd y risgiau'n cael eu hadolygu fel rhan o'r gwaith cychwynnol ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb.

**Pwerau Statudol:**
Dim

**Papurau Cefndir:**
28 Gorffennaf, 2015 – Adroddiad Cabinet

**Atodiadau:**
Atodiad A - Y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal

**Swyddog Adrodd:**
Nerys Lewis, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Uniongyrchol, Porth Gofal

**Dyddiad:**
17.10.23

**Atodiad A**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## CANLLAWIAU 2022–25

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG45945, ISBN digidol 978-1-80364-802-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Canllawiau'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022-25

# Canllawiau'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022-25

## Cyflwyniad a chefndir

Rhaglen newydd a sefydlwyd i roi cefnogaeth uniongyrchol i ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu o ddatblygu 50 o hybiau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ac i gefnogi'r gwaith o ailgydbwyso'r farchnad ofal preswyl yw'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Fe'i sefydlwyd i:

**a) gefnogi dull cydlynol o gynllunio'r gwaith o gyd-leoli ac integreiddio gwasanaethau <u>iechyd a gofal cymdeithasol</u> o fewn y gymuned ledled Cymru**

Cydnabyddir hefyd fod cyfleoedd pellach i fynd ati'n ddiwyd i gefnogi llesiant unigolion drwy gyd-leoli ac integreiddio gwasanaethau ehangach fel gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar, tai, gofal plant, addysg a chymorth cymunedol. Bydd angen sefydlu trefniadau cynllunio ar y cyd yn Llywodraeth Cymru ac yn allanol gyda phartneriaid cyflawni, yn cynnwys byrddau iechyd, awdurdodau lleol, y trydydd sector a darparwyr gwasanaethau, yn cynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn sicrhau ymateb cydlynol sy'n gwneud y gorau o gyfleoedd gan gynnig profiad gwasanaeth cyfannol mwy cydgysylltiedig i bobl.

**b) cefnogi'r gwaith o ailgydbwyso darpariaeth gofal preswyl i oedolion drwy gynyddu darpariaeth o du mewn i'r <u>sector nid-er-elw</u>**

Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu sut y bydd y buddsoddiad yn cael ei dargedu tuag at y sector cyhoeddus a'r sector nid-er-elw i'w galluogi i dyfu. Fodd bynnag, o ran gofal oedolion, efallai y bydd darparwyr annibynnol bach hefyd yn gallu elwa ar fuddsoddiad os yw'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn penderfynu bod tyfu neu ehangu eu cynnig gwasanaeth o bwys strategol i'r rhanbarth ac na ellir sicrhau digon o gapasiti drwy'r sector cyhoeddus.

**c) cefnogi dileu elw o ddarpariaeth gofal preswyl i blant**

Yn unol ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal, gellid defnyddio'r gronfa i gefnogi twf darpariaeth gofal preswyl nid-er-elw i blant.

Mae rhagor o fanylion am y mathau o brosiectau a all wneud cais am gyllid i'w cael yn ddiweddarach yn y canllawiau hyn.

## Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi'u nodi fel cyfryngau allweddol i arwain datblygiad dull cydgysylltiedig o gynllunio buddsoddiad cyfalaf mewn iechyd, gofal cymdeithasol a thai a all sicrhau darpariaeth gwasanaethau di-dor yn nes at y cartref.

Yn benodol, bydd ganddynt rôl allweddol i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu hybiau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn ogystal ag ailgydbwyso'r farchnad.

Cafodd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu sefydlu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i hwyluso'r trefniadau partneriaeth strategol rhwng bwrdd iechyd lleol a neu fwy o awdurdodau lleol. Mae Cymru Iachach, Cynllun Hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn gosod y Byrddau mewn rôl arwain allweddol i yrru'r gwaith o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn ei flaen.

Yn ogystal â phartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol, mae aelodaeth o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector tai, o'r sector addysg, y trydydd sector, darparwyr annibynnol, dinasyddion a gofalwyr a fydd yn mynd ati i ddarparu gwasanaethau di-dor yn effeithiol yng Nghymru. Eu pwrpas yw gwella canlyniadau a llesiant oedolion a phlant ag anghenion gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'r Byrddau'n gweithio fel partneriaeth i gynllunio, rheoli a datblygu gofal effeithiol yn strategol a chefnogi'r gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion eu poblogaethau perthnasol yn y ffordd orau.

Swyddogaethau a gwneuthuriad unigryw y Byrddau sy'n eu rhoi mewn lle delfrydol i oruchwylio buddsoddiad strategol y Gronfa Gyfalaf.

Fel rhan o'r rhaglen newydd hon, bydd y Byrddau wedi datblygu a chyflwyno saernïaeth cynllunio a llywodraethu ranbarthol a fydd yn sicrhau bod modd cysoni'r gwahanol raglenni refeniw a chyfalaf yn well ac yn sicrhau ymgysylltiad partneriaid a rhanddeiliaid ehangach â'r arbenigedd angenrheidiol i gefnogi datblygiad hybiau integredig ac atebion seiliedig ar lety.

Bydd y saernïaeth hon yn sicrhau dull cydgysylltiedig ar draws partneriaid allweddol yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar, tai ac addysg gan greu capasiti i wneud y gorau o adnoddau, sgiliau a chyfleoedd.

## Cyllideb Cyfalaf

Mae cyllideb tair blynedd y rhaglen Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel a ganlyn:

£50 miliwn – 2022/23

£60 miliwn – 2023/24

£70 miliwn – 2024/25

Bydd y gronfa'n canolbwyntio ar gyflawni tair blaenoriaeth:

1. Darparu Hybiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig
2. Ailgydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol preswyl i oedolion
3. Dileu elw o ddarpariaeth gofal preswyl i blant.

Mae'r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth ychwanegol am y disgwyliadau cyflawni yn erbyn y blaenoriaethau hyn a rhagor o fanylion am y broses ariannu.

## Y Gyllideb Refeniw

Ochr yn ochr â'r cyllid Cyfalaf hwn, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cronfeydd refeniw penodol ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i helpu i gyflawni'r rhaglen. Mae'n rhaid defnyddio'r arian ar gyfer:

- Darparu adnoddau i'r Byrddau ddatblygu a gweithredu cynllun cyfalaf strategol 10 mlynedd (£200,000 i bob Bwrdd bob blwyddyn am 3 blynedd).
- Cydgysylltu a hwyluso datblygiad darpariaeth gwasanaethau integredig di-dor drwy hybiau iechyd a gofal cymdeithasol, yn cynnwys astudiaethau dichonoldeb (£500,000 i bob Bwrdd bob blwyddyn am 3 blynedd).

Yn ogystal â darparu'r cyllid refeniw yn uniongyrchol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, cytunwyd ar gyllid i hwyluso datblygiad 'glasbrint' cenedlaethol ar gyfer hybiau iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Bydd hyn yn darparu gallu ychwanegol ar lefel genedlaethol i fapio'r hybiau cyfredol ledled Cymru er mwyn pennu ein llinell sylfaen gyfredol, i gefnogi datblygiad diffiniad / glasbrint o'r Hybiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig a gweithio gyda'r Gymuned Ymarfer Gofal yn y Gymuned i gyflawni dull cyson o integreiddio gwasanaethau a darparu gofal di-dor a gwasanaethau cymorth drwy'r Hybiau. Bydd disgwyl i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gysylltu â'r gwaith cenedlaethol hwn a'i gefnogi i ddatblygu 'glasbrint' ac ymgysylltu â'r cymunedau ymarfer cysylltiedig.

### Y cyd-destun strategol ehangach

Ni ddylid edrych ar y gronfa gyfalaf hon ar ei phen ei hun heb edrych ar y polisi ehangach neu'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi integreiddio a chyd-leoli gwasanaethau. Bydd y rhaglen yn cyd-fynd â rhaglenni gwaith ac adnoddau allweddol eraill, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni nifer o agendâu polisi ac ymrwymiadau, rhai ohonynt wedi'u rhestru isod.

#### *Y Rhaglen Lywodraethu*

Bydd y gronfa hon yn cefnogi'r gwaith o ddarparu amrywiaeth eang o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, yn cynnwys:

- Diwygio gofal sylfaenol, gan ddod â gwasanaethau meddygon teulu, fferylliaeth, therapi, tai, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, y gymuned a'r trydydd sector at ei gilydd.
- Blaenoriaethu ailgynllunio gwasanaethau i wella dulliau ataliol, mynd i'r afael â stigma a hyrwyddo dull 'dim drws anghywir' o ddarparu cymorth iechyd meddwl.
- Cyflwyno fframwaith Cymru gyfan i gyflwyno presgripsiynu cymdeithasol i helpu pobl sy'n teimlo'n ynysig
- Cefnogi datblygiadau tai arloesol i ddiwallu anghenion gofal
- Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yn ystod tymor nesaf y Senedd
- Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.

- Buddsoddi yn amgylchedd dysgu ysgolion cymunedol, cyd-leoli gwasanaethau allweddol, a sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni a gofalwyr y tu allan i oriau traddodiadol
- Ystyried ble y gellir dod â gwasanaethau a chontractau yn ôl yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy i mewn i sector cyhoeddus cryfach
- Buddsoddi mewn cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ledled Cymru
- Deddfu i ddarparu gwell gofal ac iechyd integredig, gan roi sylw i'r ymatebion i'n papur gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth
- Datblygu mwy na 50 o hybiau cymunedol lleol i gyd-leoli gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen a gwasanaethau eraill

## Model Gofal Sylfaenol i Gymru

Mae'n rhaid i brosiectau o dan flaenoriaeth 1 gyd-fynd yn llwyr ag egwyddorion y Model Gofal Sylfaenol i Gymru a Cymru Iachach: Cynllun Hirdymor ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2019), gan ddarparu dull system gyfan sy'n dangos integreiddio rhwng gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, ac sydd wedi hwyluso cydweithredu ac ymgynghori i gyrraedd consensws ar y math o ddarpariaeth gofal sylfaenol y byddai cleifion a staff yn hoffi ei weld sy'n rhoi'r gefnogaeth orau i bobl, yn rhoi mynediad hawdd at wasanaethau gofal lleol pan fo'u hangen ac atebion technolegol i wella mynediad i gefnogi hunanofal.

Mae'r egwyddorion yn ceisio esbonio sut y dylid darparu'r cyfeiriad ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol yng Nghymru mewn amrywiaeth o gyfleusterau gofal sylfaenol. Cynlluniwyd yr allbynnau yn dilyn adborth gan nifer o randdeiliaid gwasanaethau clinigol, proffesiynol a chyhoeddus er mwyn deall ac adolygu'r angen gwirioneddol yng nghyd-destun egwyddorion cynllunio arferion gorau. Ni fwriadwyd i'r egwyddorion fod yn rhagnodol, yn hytrach dylid eu dehongli mewn cyd-destun lleol.

Mae'r weledigaeth yn canolbwyntio ar swyddogaethau hyblyg a chynllun y gellir ei addasu sy'n cefnogi newid darpariaeth gwasanaethau. Mae adborth o weithgareddau ymgysylltu wedi amlygu'r egwyddorion allweddol canlynol sy'n elfennau pwysig o ddatblygiad ystad gofal sylfaenol Cymru i'r dyfodol:

- Pwysigrwydd sefydlu cyfleusterau newydd fel ffocws i'r gymuned ehangach.
- Yr angen i symud i ffwrdd o fodelau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol pur un partner tuag at wasanaethau amlddisgyblaeth mwy cynaliadwy a chydweithredol sydd wedi'u cyd-leoli.
- Yr angen i wneud y defnydd gorau posibl o'r ystad gyhoeddus ehangach (e.e. llyfrgelloedd a neuaddau cymunedol).
- Cydnabod y gallai gwahanu llwybrau gofal sylfaenol a chymunedol heb eu trefnu / brys olygu bod angen cyfleusterau gwahanol.
- Dull cynllunio lle nad yw un cynllun yn addas i bawb, rhaid bod yn hyblyg a gallu ymateb i anghenion lleol.

- Hollbwysigrwydd tegwch i bob claf o ran mynediad, y cynnig gwasanaeth a'r amgylchedd.

Mae rhagor o fanylion am yr egwyddorion a'r mathau o Ganolfannau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig wedi'u cynnwys isod yn Atodiad 1.

Mae'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol wedi cyflwyno Rhaglen Datblygiad Clwstwr Carlam i sicrhau bod y Model Gofal Sylfaenol i Gymru yn cael ei gweithredu'n gynt ac er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau o fewn y system.

Mae'r Rhaglen yn cynnwys cyflwyno Cydweithrediadau Proffesiynol a Grwpiau Cynllunio Clwstwr Cymru Gyfan i ehangu a chryfhau ymgysylltu clinigol a chynyddu dylanwad y gymuned ar benderfyniadau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae Datblygiad Clwstwr Carlam yn ymwneud ag atgyfnerthu a gwella cyfres o fecanweithiau a seilwaith sydd eisoes ar waith yn y rhan fwyaf o achosion. Mae'n ymwneud â llwybr clir o'r gwasanaethau iechyd a gofal rheng flaen lleol drwodd i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o ran deall anghenion y boblogaeth leol a gallu troi gwybodaeth o'r fath yn flaenoriaethau strategol ystyrlon ar lefel Bwrdd / clwstwr.

## Y Gronfa Integreiddio Ranbarthol

Cronfa refeniw a fydd yn cael ei darparu dros 5 mlynedd (2022-27) yw'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol (RIF)[1] . Mae'n adeiladu ar lwyddiannau a dysgu allweddol o'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid ac yn cysoni sawl ffrwd ariannu mewn rhaglen fuddsoddi wedi'i symleiddio, â ffocws. Mae'n rhaid i'r holl weithgarwch a ariennir gan y Gronfa Integreiddio Ranbarthol gefnogi datblygiad a darpariaeth y chwe model cenedlaethol o ofal integredig yn uniongyrchol, a disgwylir i unrhyw fuddsoddiad a wneir drwy'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso ystyried y weledigaeth strategol ranbarthol ehangach o amgylch y modelau gofal hyn.

- Gofal yn y gymuned – dulliau ataliol a chydgysylltu cymunedol
- Gofal yn y gymuned – gofal cymhleth yn nes at y cartref
- Hyrwyddo iechyd a llesiant emosiynol da
- Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a chymorth therapiwtig ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal
- Gwasanaethau gartref o'r ysbyty
- Atebion llety

Gellir neu dylid cyd-leoli a/neu ddarparu rhai agweddau ar y modelau gofal integredig hyn drwy hybiau/canolfannau iechyd a gofal cymdeithasol neu drwy atebion llety a phreswyl integredig. Bydd gofyn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod cynlluniau buddsoddi cyfalaf a refeniw yn cyd-fynd i ddarparu'r cyfle gorau posibl i dargedu buddsoddiad yn strategol, er mwyn creu newid gwirioneddol yn y system i ddarparu gwasanaethau di-dor.

## Y Gronfa Tai â Gofal

[1] https://llyw.cymru/y-gronfa-integreiddio-rhanbarthol-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol

Cronfa gyfalaf dai gyda'r amcanion o gynyddu'r stoc o dai i ddiwallu anghenion pobl ag anghenion gofal a chymorth, a darparu llety dros dro â gofal a lleoliadau gofal canolraddol yn y gymuned yw'r Gronfa Tai â Gofal[2]. Mae'n ategu'r buddsoddiad a ddarperir trwy'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso.

Mae'n bwysig bod cynlluniau buddsoddi ar gyfer y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso a'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol yn cael eu hystyried ochr yn ochr i sicrhau eu bod yn gyson yn strategol ac i gael y manteision gorau posibl i Gymru.

## Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy[3] yn cael ei darparu gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach ac esgobaethau.

Bydd y Rhaglen yn gweld buddsoddiad gwerth £2.3 biliwn pellach yn y seilwaith ysgolion a cholegau gan ddefnyddio cyfalaf a refeniw cyhoeddus. Er mwyn cefnogi fforddiadwyedd rhaglenni unigol partneriaid cyflawni a bod modd eu cyflawni, mae cyfradd ymyrryd grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau cyfalaf bellach yn 65% o'u cost. Mae cangen refeniw y rhaglen yn cael ei hariannu 81% gan Lywodraeth Cymru gyda chostau cyfalaf cysylltiedig cynlluniau refeniw wedi'u hariannu ar 65%.

## Dechrau'n Deg

Dechrau'n Deg[4] yw rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n targedu teuluoedd sydd â phlant o dan 4 oed ac yn byw mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Nod y rhaglen yw gwneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant drwy liniaru effaith tlodi, sy'n gysylltiedig â chanlyniadau bywyd gwael mewn plentyndod cynnar, yn cynnwys canlyniadau iechyd. Ar hyn o bryd, mae'n gwasanaethu 36,000 o blant o dan bedair oed a'u teuluoedd. Mae'r Rhaglen yn cynnwys pedwar hawliad sy'n darparu:

- gofal plant rhan-amser o ansawdd, wedi'i ariannu i blant 2-3 oed;
- gwasanaeth ymwelwyr iechyd estynedig;
- mynediad at gymorth rhianta;
- cymorth ar gyfer datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Mae'r rhaglen yn ehangu o fis Medi 2022[5] i gyrraedd 2,500 pellach o blant o dan bedair oed, sef cam cyntaf yr ehangu graddol. Gwasanaethau wedi'u cyd-leoli a gwaith amlasiantaeth sydd wrth wraidd y rhaglen. Mae cydgysylltu strategol yn hanfodol a dylid ei ystyried wrth gynllunio ar gyfer Hybiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig a'u darparu. Lle bo'n bosibl, dylid cymhwyso gwersi a

---

[2] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-05/y-gronfa-tai-a-gofal-ctg-canllaw-2022-23.pdf
[3] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-01/canllawiau-achos-busnes-y-rhaglen-cymunedau-dysgu-cynaliadwy-2022.pdfv
[4] https://llyw.cymru/dechraun-deg-canllawiau
[5]https://llyw.cymru/ehangur-rhaglen-dechraun-deg-yng-nghymru

ddysgwyd o Raglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar ar ddulliau amlasiantaeth a ffyrdd o weithio ar draws ôl-troed y Bwrdd Iechyd.

Mae cyllid cyfalaf ar gyfer Dechrau'n Deg a gofal plant yn perthyn i'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ehangach. Mae cyllideb o £70 miliwn ar gael i fuddsoddi yn y gwasanaethau hyn dros gyfnod y gyllideb, gydag awydd i weld mwy o gyd-leoli gwasanaethau, yn cynnwys cyd-leoli gyda gwasanaethau blynyddoedd cynnar a theuluoedd ehangach fel Teuluoedd yn Gyntaf.

## Rhaglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar

Mae Rhaglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar yn cael ei darparu gan Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn gweithio ar ôl-troed y Bwrdd Iechyd. Caiff ei hariannu gan Lywodraeth Cymru (£6 miliwn yn 2022 a 23/24). Mae'r rhaglen yn galluogi Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus i fabwysiadu dull strategol o gynllunio a darparu gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar, gan weithio mewn partneriaeth â nifer o asiantaethau. Mae pob Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yn profi dulliau i ddiwallu anghenion plant yn y blynyddoedd cynnar (0-7) a'u teuluoedd gan dynnu ar 'beth sy'n gweithio' mewn rhaglenni fel Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Rhaglen Plant Iach Cymru. Maent hefyd yn profi elfennau craidd system blynyddoedd cynnar fel ffordd o ddarparu gwasanaethau mewn ffordd fwy cydgysylltiedig. Bydd dysgu o'r gwaith a wneir gan y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn helpu i lywio datblygiad fframwaith cenedlaethol i gefnogi trawsnewidiad gwasanaethau y blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol dynnu ar ddysgu ar lefel leol / ranbarthol i gefnogi dull integredig o ddarparu gwasanaethau.

## Adnewyddu a Chanol Tref yn gyntaf

Mae Dyfodol Cymru (y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol) yn gofyn am leoli cyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus sylweddol yng nghanol trefi a dinasoedd. Dylid gallu cael mynediad da iddynt drwy ddefnyddio trafnidiaeth lesol a chyhoeddus i ac o'r dref neu'r ddinas gyfan a, lle bo'n briodol, y rhanbarth ehangach. Mae'n rhaid defnyddio dull dilynol i lywio'r broses o adnabod y lleoliad gorau ar gyfer y datblygiadau hyn, a dylent gael eu nodi mewn cynlluniau strategol. Dylai'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried egwyddorion canol trefi yn gyntaf fel blaenoriaeth ac os nad yw'r ateb a ffefrir wedi'i alinio, yna bydd angen rhesymeg glir ar Lywodraeth Cymru fel rhan o unrhyw achos busnes.

## Cynllun Cyfalaf Strategol

Mae gofyn i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu Cynllun Cyfalaf Strategol 10 mlynedd sy'n dwyn ynghyd partneriaid iechyd, gofal cymdeithasol, tai, y trydydd sector, addysg ac adnewyddu i ddatblygu cyfleusterau darparu gwasanaeth integredig ac atebion llety integredig.

Bydd y cynlluniau ar ffurf Achos Busnes y Rhaglen fel y nodwyd yn [Guide to developing the Programme Business Case (gov.wales)]

Bydd gofyn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu eu Cynllun Cyfalaf Strategol a chyflwyno drafft cyntaf i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Ebrill 2023 ynghyd â'u Cynllun Ardal strategol 5 mlynedd. Mae hwn yn ddisgwyliad newydd i'r Byrddau ac felly mae cyllid refeniw wedi'i ddarparu o 2022-23 am dair blynedd i gefnogi'r Byrddau i feithrin capasiti ac arbenigedd staff i ddatblygu'r cynlluniau hyn. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod hwn yn faes arbenigedd sylweddol newydd ac felly byddem yn disgwyl i gynlluniau gael eu cyflwyno erbyn Ebrill 2023 o leiaf, cynlluniau amlinellol ar gyfer y tymor byr a chanolig, i gyd-fynd â'r cynlluniau ardal 5 mlynedd, ar y ddealltwriaeth y bydd cynlluniau a blaenoriaethau hirdymor yn dilyn.

I gefnogi'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Partneriaethau Lleol i ddatblygu canllawiau a chyngor manylach ar y broses Gynllunio Cyfalaf Strategol gyda'r nod o gyhoeddi'r canllawiau terfynol erbyn diwedd Medi 2022 gyda gweithdai i ddilyn yn yr hydref.

Fodd bynnag, er mwyn cefnogi cynllunio a gweithredu cynnar, disgwylir y bydd cynlluniau cyfalaf strategol yn cynnwys y canlynol o leiaf:

1 – Disgrifiad o'ch cyd-destun strategol rhanbarthol mewn perthynas â blaenoriaethau'ch cynllun ardal (a gefnogir gan eich Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ac Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad) a'ch dull o sefydlu'r chwe model gofal cenedlaethol:

- Gofal yn y gymuned – dulliau ataliol a chydgysylltu cymunedol
- Gofal yn y gymuned – gofal cymhleth yn nes at y cartref
- Hyrwyddo iechyd a llesiant emosiynol da
- Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a chymorth therapiwtig ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal
- Gwasanaethau gartref o'r ysbyty
- Atebion llety

2 – Trosolwg o gryfderau a gwendidau'r seilwaith cyfalaf cyfredol yn y rhanbarth ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal integredig yn y gymuned, yn cynnwys: -

  - Darpariaeth gwasanaethau rheng flaen ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
  - Hybiau a chanolfannau integredig
  - Atebion llety

3 –Eich blaenoriaethau buddsoddi strategol (a gefnogir gan eich Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ac Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad a'r Cynllun Ardal)

  - Tymor byr – 1-3 blynedd
  - Tymor canolig – 3-5 blynedd
  - Hirdymor – 5-10 mlynedd

4 – Amlinelliad o'ch trefniadau llywodraethu a rennir i gefnogi cynllunio a darpariaeth effeithiol

5 – Trosolwg o gyfraniad eich defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a rhanddeiliaid mewn prosesau cynllunio, dylunio a darparu

6 – Eich dull o feithrin sgiliau a chapasiti i sicrhau darpariaeth

7 – Eich ymrwymiad i ddatgarboneiddio a'ch dull o wneud hynny

8 – Atodiad 1 – eich portffolio prosiectau cyfalaf – bydd hon yn ddogfen fyw ar gyfer olrhain prosiectau'n barhaus

## Y mathau o brosiectau y gellir eu hariannu o dan y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso

Mae gan y Gronfa dri maes buddsoddi blaenoriaeth unigryw i gefnogi gweithrediad ymrwymiadau Cymru Iachach a'r Rhaglen Lywodraethu. Nid yw'r proffil cyllideb tair blynedd a nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon yn dangos y rhaniad rhwng blaenoriaethau'r gronfa. Yn hytrach, bydd penderfyniadau'n cael eu seilio ar broses asesu gadarn a thrylwyr, a ddisgrifir yn ddiweddarach yn y canllawiau hyn. Mae pob blaenoriaeth wedi'i disgrifio isod:

- ### Blaenoriaeth 1 – Datblygu hybiau a chanolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig

Mae ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu hybiau a chanolfannau cymunedol integredig ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu cyfle i gefnogi darpariaeth gwasanaethau di-dor drwy greu pwyntiau mynediad unigol lleol a chyd-leoli staff a gwasanaethau sy'n darparu llwybrau gofal integredig. Gallai'r hybiau hyn ddarparu'r cyfle i gyfuno cyfleusterau gofal preswyl neu ddatblygiadau tai megis gofal ychwanegol gyda mannau cymunedol agored i ddarparu allgymorth i gymunedau neu helpu pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hwy.

Mae'n rhaid i bob cynnig am gyllid o dan y flaenoriaeth hon lynu at yr egwyddorion allweddol canlynol a fydd yn sail i'r buddsoddiad:

- **Cyd-leoli gwasanaethau i alluogi darpariaeth ddi-dor.** Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol edrych ar draws yr ystod o gyfleusterau ac asedau cymunedol sydd ar gael iddynt (yn cynnwys y rhai y tu allan i'r ystad iechyd a gofal cymdeithasol, er enghraifft cyfleusterau'r blynyddoedd cynnar, ysgolion, canolfannau hamdden, blaen siopau) i chwilio am gyfleoedd i gyd-leoli gwasanaethau a allai ddod â mwy o fanteision i ddefnyddwyr gwasanaethau o'u lleoli'n ffisegol yn yr un lle. Fodd bynnag, mae'n hanfodol cydnabod na fydd cyd-leoli ynddo'i hun yn sicrhau darpariaeth gwasanaethau di-dor ac y bydd angen sefydlu cynlluniau i gefnogi llywodraethu, newid diwylliannol ac ymarfer (yn cynnwys rhannu data a gwybodaeth) i hwyluso darpariaeth gwasanaethau di-dor o safleoedd cyd-leoli. Cyn belled ag y bo'n ymarferol rhesymol, dylai'r cynlluniau hyn geisio dileu codi tâl ar wahanol rannau o'r system am ddefnyddio cyfleusterau cymunedol, er mwyn annog cyd-leoli a gweithio di-dor.

- **Rhwydwaith 'prif ganolfan a lloerennau' o gyfleusterau integredig.** Mae'r egwyddor hon wedi'i seilio ar y gydnabyddiaeth na fydd gan bob hyb bob gwasanaeth ond y dylid rhwydweithio cyfleusterau yn amlwg i sicrhau eu bod yn darparu cynnig iechyd a gofal cymdeithasol integredig a chydlynol ledled ardal.

- **Egwyddor 'dim drws anghywir'.** Dylai rhwydweithio hybiau a lloerennau fod yn seiliedig ar egwyddor dim drws anghywir sy'n golygu na fydd unrhyw un yn cael ei droi i ffwrdd o gwbl oherwydd nad yw'r gwasanaeth neu'r cymorth sydd eu hangen arnynt ar gael ar y safle hwnnw. Dylid cefnogi unigolion i gael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ble bynnag y byddant yn dod drwy'r drws am y tro cyntaf. Bydd cynyddu nifer y gwasanaethau mynediad uniongyrchol, nad oes angen atgyfeirio iddynt drwy wahanol bwyntiau o'r system yn ychwanegu gwerth ac yn lleihau defnydd diangen o apwyntiadau neu gysylltiadau.

- **Ymateb graddedig.** Mae'r egwyddor hon yn cydnabod bod cymorth a ddarperir drwy hybiau'n gallu amrywio o wybodaeth a chyngor a chymorth gyda materion bywyd pwysig allweddol (fel rhianta, tai, rheoli dyledion, cyflogaeth, gweithgareddau i atal unigrwydd ac ynysigrwydd, banciau bwyd) i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mwy cymhleth (fel gwasanaethau meddygon teulu, timau gwaith cymdeithasol, therapi galwedigaethol, podiatreg, ffisiotherapi, ymarferwyr iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, nyrsio ardal, gofal cartref, gwasanaethau iechyd i bobl ddigartref, lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae'n bwysig bod y rhwydwaith prif ganolfan a lloerennau a ddatblygir yn gallu cwmpasu ystod eang o wasanaethau ar y sbectrwm hwn.

- **Canol Tref yn gyntaf.** Yn unol â pholisi adfywio Llywodraeth Cymru ar ddatblygu canol trefi, dylai datblygiadau prif ganolfan a lloerennau ystyried yn gryf a allai safleoedd canol trefi ddarparu lleoliadau addas ar gyfer darparu gwasanaethau integredig ac fel y nodwyd uchod, os nad yw'r ateb a ffefrir yn cyd-fynd â hyn, yna bydd angen sail resymegol glir ar Lywodraeth Cymru fel rhan o unrhyw achos busnes.

- **Buddsoddiad cymesur ac wedi'i gynllunio**. Rhagwelir y bydd angen buddsoddiad sylweddol ar rai gweithgareddau o dan y flaenoriaeth hon er mwyn ailddatblygu a pheth gwaith adeiladu newydd tra bydd angen buddsoddiad llai ar weithgareddau eraill i adnewyddu ac ail-bwrpasu lleoliadau cymunedol cyfredol, yn cynnwys adeiladau yng nghanol trefi. Mae'n bwysig bod Byrddau Partneriaeth Lleol yn cynllunio eu blaenoriaethau buddsoddi yn ofalus i sicrhau a dangos gwerth gorau ac effaith.

- **Datgarboneiddio.** Mae'n rhaid i Gynlluniau Cyfalaf Strategol ac achosion busnes prosiectau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddangos sut y bydd y

buddsoddiad yn cefnogi Cymru Sero Net, drwy ddangos meysydd fel defnydd ynni carbon isel a mesurau ynni effeithlon, yn yr amgylchedd adeiledig a darpariaeth gwasanaethau.

Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eisoes wedi'u cynghori i gysoni eu cynlluniau refeniw a buddsoddiad cyfalaf ac adnoddau refeniw i gefnogi datblygiad a gweithrediad gwasanaethau wedi'u cyd-leoli drwy'r hybiau integredig hyn a ddylai ddod gan adnoddau partneriaid statudol craidd a chronfeydd dewisol drwy'r Byrddau fel y Gronfa Integreiddio Ranbarthol[6].

## • Blaenoriaeth 2 – Ailgydbwyso'r farchnad gofal preswyl i oedolion

Mae'r Papur Gwyn 'Ailgydbwyso Gofal a Chymorth' yn nodi uchelgeisiau'r Gweinidog i ailgydbwyso'r sector gofal cymdeithasol i ffwrdd o gost i ansawdd, o allbynnau i ganlyniadau ac o elw tuag at werth cymdeithasol. Mae buddsoddiad cyfalaf ar gael i gefnogi awdurdodau lleol a sefydliadau nid-er-elw, yn cynnwys cymdeithasau tai i wneud y symudiad hwn yn y ffyrdd canlynol: -

- Buddsoddi mewn lleoliadau cymunedol/safleoedd preswyl/gofal nyrsio i sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion mwy cymhleth unigolion yn nes at y cartref h.y. capasiti nyrsio, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a gofal canolraddol. Gallai hyn gynnwys cynyddu mynediad at wasanaethau'r GIG, (megis therapi gymunedol, adsefydlu/ail-alluogi a podiatreg) ar gyfer trigolion, gan gydnabod eu bod yn parhau i fod yn aelodau o boblogaeth y bwrdd iechyd.

- Cefnogi ac ysgogi awdurdodau lleol a darparwyr nid-er-elw i dyfu darpariaeth fewnol - a allai gynnwys ehangu cartrefi gofal mewnol (gwelyau ychwanegol), uwchraddio cyfleusterau er mwyn iddynt gyd-fynd â rheoliadau fel y gellir eu hailgofrestru fel darpariaeth nid-er-elw.

- Cymorth i awdurdodau lleol i ddod â darpariaeth sy'n methu yn ôl o dan reolaeth llywodraeth leol.

- Cynyddu capasiti gofal preswyl a nyrsio lle nodwyd bylchau/prinder darpariaeth.

- Cymorth i gartrefi gofal annibynnol llai i gael gafael ar adnoddau ar gyfer buddsoddi (fesul achos – cyngor pellach i ddilyn).

## • Blaenoriaeth 3 – Dileu elw o ddarpariaeth gofal preswyl i blant

[6] Tudalen 12 o ganllawiau'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol https://llyw.cymru/y-gronfa-integreiddio-rhanbarthol-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys nifer o ymrwymiadau sy'n amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru. Ein huchelgais yw newid ar draws y system gyfan ac, yn ganolog i hynny, rydym am weld mwy o blant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i fyw gyda'u teuluoedd ac yn eu cymdogaethau cartref, gan leihau'n sylweddol y nifer sydd angen derbyn gofal. Rydym hefyd am sicrhau bod y cyfnod y mae pobl ifanc mewn gofal mor fyr â phosibl.

Rydym wedi ymrwymo i gadw teuluoedd gyda'i gilydd. Ein gweledigaeth yw ailgynllunio sut rydym yn gofalu am blant a phobl ifanc fel y gallwn sicrhau'r gorau i'n pobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau drwy ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u lleoli'n lleol, wedi'u cynllunio'n lleol ac yn atebol yn lleol.

Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, mae yna ymrwymiad clir i 'ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal' ac mae'r ymrwymiad hwnnw'n elfen allweddol o'r agenda radical hon, gan gynnwys gofal preswyl i blant.

Mae adborth gan blant a phobl ifanc yn awgrymu bod ganddynt deimladau cryf am dderbyn gofal gan sefydliadau o dan berchnogaeth breifat sy'n gwneud elw o'u profiad o fod mewn gofal. Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y dylai yna fod marchnad ar gyfer gofal i blant, nac y dylai elw gael ei wneud o ofalu am blant sy'n wynebu heriau penodol yn eu bywydau. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i ddod â hyn i ben. Mae hyn yn golygu y bydd gofal plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn y dyfodol yn cael ei ddarparu gan sefydliadau'r sector cyhoeddus, sefydliadau elusennol neu sefydliadau nid-er-elw.

Ein nod yw sicrhau nad yw arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi yng ngofal plant sy'n derbyn gofal yn gwneud elw i unigolion nac endidau corfforaethol, ond yn hytrach yn cael ei wario ar wasanaethau plant er mwyn sicrhau profiadau a chanlyniadau gwell i blant a phobl ifanc, gan helpu i ddatblygu a gwella gwasanaethau a hybu datblygiad proffesiynol pellach ar gyfer staff.

Ochr yn ochr â'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso, mae'r Gronfa Tai â Gofal hefyd ar gael i gefnogi buddsoddiad mewn datblygu a/neu dyfu darpariaeth gofal preswyl nid-er-elw i blant a phobl ifanc.

Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried sut y gall y ddwy gronfa hyn weithio i gefnogi a datblygu capasiti gwasanaethau gofal preswyl nid-er-elw i blant a phobl ifanc, gan gynnwys darpariaeth sy'n cael ei rhedeg gan awdurdodau lleol. Er mwyn cynorthwyo gyda'r broses benderfynu mewn perthynas ag at ba gronfa i gyfeirio ceisiadau, mae'r canllaw canlynol wedi'i ddatblygu;

- Ar gyfer ***y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso a'r Gronfa Tai â Gofal***, rhaid i unrhyw geisiadau am gyllid ar gyfer gofal preswyl i blant gael eu gwneud drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

- **Dim ond** darparwyr nid-er-elw neu ddarparwyr sydd ag ymrwymiad clir i newid i fodel cyflenwi nid-er-elw (a fyddai'n dod yn amod ariannu) a all wneud cais am gyllid ar gyfer gofal preswyl i blant.

- Bydd ***y Gronfa Tai â Gofal*** yn canolbwyntio ar gynyddu, ehangu a/neu wella darpariaeth gofal preswyl nid-er-elw i blant. Gallai hyn gynnwys;
  - datblygu darpariaeth gofal preswyl nid-er-elw newydd yn unol ag asesiadau anghenion lleol a rhanbarthol ac adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad
  - ehangu'r ddarpariaeth nid-er-elw bresennol (gwelyau ychwanegol)
  - uwchraddio cyfleusterau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau i'w galluogi i gael eu cofrestru fel darpariaeth nid-er-elw.

- Gall y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso ddarparu cymhellion i gefnogi newid model busnes ym maes gofal preswyl i blant tuag at fodel nid-er-elw. Gallai hyn gynnwys;
  - cymorth i awdurdodau lleol ddod â darpariaeth er elw bresennol o ofal preswyl i blant o dan reolaeth llywodraeth leol
  - cefnogi a chymell y sector nid-er-elw i dyfu darpariaeth gofal preswyl i blant.

## Y Cam Braenaru - Ebrill 2022

Dechreuodd y gwaith ym mis Ebrill 2022 gyda chychwyn cam braenaru'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso i sicrhau bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gallu cyflwyno datganiadau o ddiddordeb ar gyfer prosiectau sy'n bodloni blaenoriaethau ac egwyddorion y Gronfa er mwyn sicrhau dyraniad grantiau amserol.

Gwahoddwyd y Byrddau i gwblhau rhestr wirio ar gyfer prosiectau y tybient a oedd yn addas fel y gallai panel trawslywodraeth asesu eu haddasrwydd mewn 3 cham ym misoedd Ebrill, Mai a Mehefin 2022.

Ni fydd y cam braenaru'n cael unrhyw effaith ar gyllid pellach drwy'r Gronfa Gyfalaf yn y blynyddoedd i ddod gan fod arian yn cael ei roi ar sail ymgeisio yn hytrach na dyraniadau penodol.

Trwy'r cam braenaru, cyflwynwyd cynigion o dan flaenoriaeth 1 a 2 ac roeddynt yn cynnwys cynigion ar gyfer Hybiau Llesiant Cymunedol, hybiau gofal integredig a gofal canolraddol a gofal canolraddol seiliedig ar welyau. Drwy ymrwymo i brosiectau o fewn y cam braenaru, nid yw Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i ariannu prosiectau ymhellach yn y blynyddoedd dilynol, byddai hyn yn destun achos busnes pellach neu waith papur gofynnol ychwanegol a fydd yn cael ei drafod fesul achos gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae'r cam braenaru wedi galluogi Llywodraeth Cymru i gynnal ymarfer gwersi a ddysgwyd i ddatblygu'r canllawiau hyn ar gyfer cyflwyno'n ffurfiol y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol gan sicrhau bod gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r broses wrth symud ymlaen.

## Rheolaeth Ariannol

Ni fydd cyllid yn cael ei ddyrannu ymlaen llaw ar sail ranbarthol nac yn erbyn unrhyw un o'r tair blaenoriaeth. Yn hytrach, bydd buddsoddiad yn seiliedig ar gyflwyno cynigion cymeradwy gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a fydd yn eu tro yn cael eu hystyried gan grŵp trawslywodraeth o swyddogion Llywodraeth Cymru a fydd yn gwneud argymhellion i Weinidogion ynghylch cymeradwyaeth.

Bydd yn ofynnol i bob cynllun sy'n derbyn cyllid y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda gwerth contract o fwy na £2 filiwn agor Cyfrif Banc Prosiect (PBA). Mae hwn yn un o amcanion polisi allweddol Llywodraeth Cymru i sicrhau taliad prydlon drwy gadwyn gyflenwi adeiladu. Bydd tystiolaeth bod PBA wedi'i agor yn ofynnol ar gyfer cam talu'r grant adeiladu.

Mae rhagor o wybodaeth am bolisi Cyfrifon Banc Prosiect ar gael yma ac mae canllawiau ar ddefnyddio'r Cyfrifon ar gael yma.

Gellir cyfeirio ymholiadau am bolisi Cyfrifon Banc Prosiect Llywodraeth Cymru i dîm Bolisi Caffael Llywodraeth Cymru drwy'r cyfeiriad e-bost canlynol: PolisiMasnachol@llyw.cymru.

## Y Broses Ymgeisio a Chymeradwyo

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi'u nodi fel y cyrff arweiniol i gydgysylltu a rheoli'r rhaglen gyfalaf hon o ystyried eu safle unigryw fel fforwm partneriaeth amlasiantaeth. Dylai partneriaid (yn cynnwys iechyd, tai, gofal cymdeithasol, addysg, adfywio a'r trydydd sector) weithio drwy'r Byrddau i gyfrannu eu gwybodaeth, eu hadnoddau a'u cyfleoedd eu hunain mewn perthynas â'u gwasanaeth i gefnogi datblygiad cynllun cyfalaf strategol a fydd yn nodi blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf i gefnogi darpariaeth gwasanaethau integredig. Bydd y canllawiau a'r cyngor a nodwyd uchod ar y broses Cynllunio Cyfalaf Strategol sydd i'w cyhoeddi i'r Byrddau erbyn diwedd Medi 2022 yn helpu'r Byrddau i gydnabod y gwahanol brosesau rhwng sefydliadau arweiniol wrth ddatblygu cynlluniau integredig.


Bydd y cynllun cyfalaf strategol a cheisiadau am brosiectau'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru eu cymeradwyo.

Bydd gan y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso a'r Gronfa Tai â Gofal eu paneli asesu eu hunain a fydd yn cynnwys swyddogion trawslywodraeth yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, tai ac adfywio. Bydd Cyfarwyddwyr Rhaglenni y ddwy gronfa'n aelodau o'r paneli asesu ac yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau bod ceisiadau'n cael eu dyrannu i'r gronfa fwyaf briodol a bod cyfleoedd ar gyfer cysoni ehangach yn cael eu cydnabod a'u datblygu.

Gall y paneli asesu ddod yn ôl at y Byrddau i ofyn am fwy o wybodaeth i gefnogi ceisiadau os oes angen.

Ar ôl eu cymeradwyo gan y panel asesu bydd y ceisiadau'n cael eu cyflwyno i Weinidogion am gymeradwyaeth derfynol.

Mae Ffigur 2 isod yn dangos y broses gynllunio ac asesu ar gyfer y Gronfa Tai â Gofal a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol.




*Ffig 2*

Fel y nodwyd uchod, bydd angen i'r Byrddau ddatblygu a chynnal Cynllun Cyfalaf Strategol a phortffolio prosiectau ategol a fydd yn nodi'r angen strategol yn glir am unrhyw brosiect a gyflwynwyd o dan y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Dim ond ceisiadau wedi'u cynnwys o fewn y Cynllun Cyfalaf Strategol fydd yn cael eu derbyn drwy'r Gronfa Gyfalaf. Fodd bynnag, o nodi natur hirdymor y cynllun strategol disgwylir iddo gael ei reoli fel dogfen fyw fel y gellir ei diweddaru i ddiwallu anghenion newidiol neu gyfleoedd newydd a allai godi dros amser. Yn yr un modd, dylid diweddaru'r portffolio prosiectau'n rheolaidd a'i ddefnyddio i olrhain cynnydd darpariaeth.

Bydd prosiectau a gyflwynir o dan y Gronfa Gyfalaf yn destun proses ymgeisio a chymeradwyo aml-gam; bydd nifer y camau'n cael ei bennu gan faint a risgiau'r prosiect, er enghraifft, byddai gofyn cael achos busnes amlinellol ac achos busnes llawn ar gyfer buddsoddiadau mwy cymhleth.

Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyflwyno eu prosesau mewnol eu hunain i arfarnu a chymeradwyo prosiectau cyn i'r rhain gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Dylid cofnodi cymeradwyaeth y Byrddau ar y ffurflen gais.

Bydd y panel trawslywodraeth yn cyfarfod bob deufis i arfarnu'r ceisiadau a dderbyniwyd.

Bydd ceisiadau a dderbynnir o fewn 10 diwrnod gwaith i ddyddiad y panel yn cael eu harfarnu yn y panel nesaf i roi digon o amser i asesu a dosbarthu'r gwaith papur cyn y panel.

Cam 1 – Cais cychwynnol

Mae cais y cam cyntaf yn nodi egwyddorion, disgrifiad ac amcan o gost y prosiect, fel y nodwyd yn y ffurflen gais. Os yw'n cytuno, bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi cymeradwyaeth 'mewn egwyddor' i'r cynllun yn y cam hwn, a lle bo'n briodol, yn ariannu ffioedd i gyflawni cam nesaf y broses.

Cam 2 – Datblygu Achos Busnes

Sicrhau'r gwerth gorau i'r cyhoedd yw prif nod gwariant y sector cyhoeddus. Y dull Gwell Achos Busnes, gan ddefnyddio'r Model Pum Achos, yw arferion gorau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllunio a chyfiawnhau costau cynigion buddsoddi mewn seilwaith a galluogi penderfyniadau dyrannu cyllid effeithiol.

Mae'r dull Gwell Achos Busnes yn ofyniad i bob cynllun sydd am gael buddsoddiad o raglen y Gronfa Gyfalaf ac yn seiliedig ar arferion gorau a nodir yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM[7].

Mae pob Achos Busnes a gyflwynir wedi'u seilio ar Achos Busnes y Rhaglen (a arferai gael ei alw'n Rhaglen Amlinelliad Strategol), sy'n darparu golwg cyffredinol o'r prosiect/rhaglen. Bydd eich Cynllun Cyfalaf Strategol yn gweithredu fel Achos Busnes y Rhaglen.

Yna, gall prosiectau unigol gael eu cymeradwyo yn amodol ar dderbyn Achos Busnes boddhaol.

Yn achos prosiectau dros £5 miliwn, mae Achosion Busnes yn cael eu cyflwyno mewn dau gam:


- Achos Amlinellol Strategol (SOC) ac Achos Busnes Amlinellol (OBC) - yn dilyn cymeradwyo Achos Busnes y Rhaglen gellir cyflwyno'r ddau yma yr un pryd
- Achos Busnes Llawn (FBC)

Yn achos prosiectau llai sy'n werth llai na £5 miliwn, mae'r Achos Amlinellol Strategol, yr Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn yn cael eu disodli gan un ddogfen, yr Achos Cyfiawnhad Busnes (BJC).


Mae'r broses hon wedi'i dangos yn y diagram isod yn ffig 1:

7 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1063330/Green_Book_2022.pdf

**Prosiectau llai na £5 miliwn**




**Prosiectau dros £5 miliwn:**




*Ffig 1*

Mae angen gwerthusiad tir neu eiddo annibynnol **cyn cymeradwyo** unrhyw gaffaeliad. Mae angen tystiolaeth o deitl cyn talu unrhyw gyllid. Nid oes angen dogfennau gwreiddiol wedi'u llofnodi arnom ond dylid cadw'r rhain i gyfeirio atynt yn y dyfodol.

Mae angen tystiolaeth o ganiatâd cynllunio manwl a chontract adeiladu wedi'i lofnodi cyn cymeradwyo Achos Busnes Llawn (neu Achos Cyfiawnhad Busnes).

Pan fydd cais am brosiect yn cael ei gymeradwyo, bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi llythyr dyfarnu grant o blaid sefydliad arweiniol enwebedig y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Nid yw'r Byrddau'n gyrff corfforedig ac felly ni allant ddal cronfeydd na chyflogi pobl. Y sefydliad arweiniol sy'n derbyn y llythyr dyfarnu grant ac sy'n ddarostyngedig i'r cyfrifoldebau a'r rhwymedigaethau cyfreithiol a roddir yn y llythyr.

## Hawliadau

Pan fydd cyllid Llywodraeth Cymru'n cael ei ddyfarnu i gorff allanol mae'n bwysig bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i ddefnyddio at y dibenion y dyfarnwyd ef.

Pan fydd byrddau iechyd yn sefydliad arweiniol, bydd y cyllid yn dod trwy'r Rhestr Terfyn Adnoddau Cyfalaf fel sy'n digwydd ar gyfer pob dyraniad cyllid ar gyfer byrddau iechyd, bydd manylion am hyn yn y llythyr dyfarnu grant.

Pan na fydd y sefydliad arweiniol yn Fwrdd Iechyd, gall y sefydliad arweiniol hawlio ôl-daliadau chwarterol yn seiliedig ar gostau darparu'r prosiect. Bydd profforma hawlio'n cael ei ddarparu i'w ddefnyddio ac mae enghraifft i'w gweld yn Atodiad [TBC].

Gellir cyflwyno hawliadau bob chwarter ac eithrio yn y chwarter olaf, pan mae'n rhaid derbyn hawliadau erbyn 28/29 Chwefror ar y diwrnod gwaith olaf yn y mis os yw'r 28 neu'r 29 yn syrthio ar benwythnos.

Bydd angen cadarnhad ar bob hawliad yn seiliedig ar y gofynion canlynol:

- Mae'r manylion yn gywir ac nid oes ac ni fydd unrhyw grant arall gan Lywodraeth Cymru na chyfraniadau allanol yn cael eu gwneud tuag at y gwariant a nodwyd yn yr hawliad oni chytunwyd fel arall.

- Mae'r cyllid yr hawliwyd amdano ar gyfer dibenion y cytunwyd arnynt, ar gyfer gwariant cymwys ac o fewn terfynau gwariant a gymeradwywyd.

- Mae'r sefydliad yn gweithredu yn unol â'i gyfansoddiad ym mhob agwedd.

- Mae'r sefydliad yn datgan bod y systemau ariannol a rheoli priodol ar waith os oes unrhyw ran o'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i ddarparu grant neu i gaffael unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan drydydd partïon.

Bydd y llythyr dyfarnu grant yn darparu manylion pellach ar broses hawlio Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

## Pridiannau Cyfreithiol a Chyfyngiadau

Mae cynlluniau sy'n derbyn mwy na £100,000 o gyllid gan y Gronfa Gyfalaf yn destun pridiannau cyfreithiol a/neu gyfyngiadau. Bydd manylion y pridiannau cyfreithiol a'r cyfyngiad yn cael eu hatodi i'r Llythyrau Dyfarnu Grant.

Os yw cyllid o'r Gronfa Gyfalaf yn cael ei dalu i'r Bwrdd Iechyd Lleol, a'i gadw gan y Bwrdd Iechyd Lleol, nid oes unrhyw ofynion pridiannau cyfreithiol a/neu gyfyngiad. Nodwch fod Byrddau Iechyd Lleol yn gofyn am gymeradwyaeth gan y Gweinidog i gaffael neu waredu tir neu eiddo.

Os yw cyllid o'r Gronfa Gyfalaf yn cael ei dalu i'r Bwrdd Iechyd Lleol sy'n ei dalu ymlaen i sefydliad darparu, fel Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu awdurdod lleol, mae'n rhaid gosod pridiannau cyfreithiol a/neu gyfyngiad o blaid y Bwrdd Iechyd Lleol ar yr eiddo.

Os yw cyllid o'r Gronfa Gyfalaf yn cael ei dalu'n uniongyrchol i awdurdod lleol, mae'n rhaid cofrestru cyfyngiad yn erbyn y tir neu'r eiddo o blaid Gweinidogion Cymru. Os

yw'r cyllid rhwng £50,000 a £250,000 bydd y cyfyngiad yn parhau am 5 mlynedd, os yw dros £250,000 bydd y cyfyngiad yn parhau am 10 mlynedd.

Os yw cyllid o'r Gronfa Gyfalaf yn cael ei dalu'n uniongyrchol i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu unrhyw ddarparwr trydydd sector neu annibynnol arall, mae'n rhaid gosod pridiant cyfreithiol a chyfyngiad ar y tir neu'r eiddo a brynwyd yn y cam caffael o blaid Gweinidogion Cymru. Os yw'r ymgeisydd yn berchen ar yr eiddo eisoes, mae'n rhaid gosod y pridiannau cyfreithiol a'r cyfyngiad ar yr eiddo yn y cam adeiladu.

### Cyflawni'r Rhaglen

Gall y broses o gyflawni'r rhaglen gynnwys rhai neu bob un o'r camau canlynol yn dibynnu ar faint a chwmpas y prosiect:

- Craffu technegol yn y cam cysyniad a'r cam cyn-cynllunio
- Cymeradwyo a dyfarnu'r prosiect
- Talu grant
- Adolygiad ôl-gwblhau craffu technegol

## Rolau a Chyfrifoldebau

### Llywodraeth Cymru

Bydd tîm Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gweinyddu cyllid tuag at brosiectau Blaenoriaeth 1, Blaenoriaeth 2 a Blaenoriaeth 3, gyda chymorth arfarnu a phanel gan arweinwyr polisi allweddol yn Llywodraeth Cymru. Mae rôl Llywodraeth Cymru'n cynnwys:

- Adolygu ceisiadau ac ymgysylltu/gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.
- Ymgysylltu â'r meysydd polisi allweddol gofynnol fel Tai, Addysg, Adfywio, y Blynyddoedd Cynnar a thlodi yn ogystal â thimau Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol a meysydd polisi eraill yn Llywodraeth Cymru.
- Gwirio a phrosesu ceisiadau cymeradwyo cynlluniau a hawliadau grantiau.
- Ymgysylltu ag ymgeiswyr pan fo ceisiadau'n anghyflawn neu'n ymddangos yn anghywir.
- Pennu cyfrannau cyllid y Gronfa Gyfalaf a'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol ar gyfer pob cynllun.
- Cyhoeddi cymeradwyaethau cynlluniau drwy lythyrau dyfarnu grantiau a thalu grantiau.
- Lle bo'n berthnasol, gweithredu unrhyw bridiannau cyfreithiol neu gyfyngiadau.
- Cynnal hapwiriadau o ddogfennau a gedwir ar ffeiliau'r adolygiad.
- Monitro Cynlluniau Cyfalaf Strategol a cheisiadau i sicrhau bod yr holl grant yn cael ei dalu pan fo'n ddyledus.
- Monitro cynlluniau wedi'u cwblhau i sicrhau bod allbynnau a manteision yn cael eu cofnodi ac adroddiadau adolygu ôl-gwblhau'n cael eu derbyn.

Dylid anfon pob cais cymeradwyo prosiect a hawliad grant yn ymwneud â chynlluniau a ariennir gan Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn electronig i flwch negeseuon e-bost Partneriaeth ac Integreiddio: partneriaethauacintegreiddio@llyw.cymru.

Gofynnir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, awdurdodau lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a darparwyr eraill y trydydd sector neu'r sector annibynnol ddatgan enw'r cynllun yn glir yn nheitl yr e-bost a'r math o ohebiaeth.

## Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfrifol am y canlynol:

- Rheoli a chynnal y Cynllun Cyfalaf Strategol rhanbarthol, a chynllunio cyfalaf rhanbarthol strategol ehangach i wneud y gorau o'r synergeddau rhwng y Gronfa Tai â Gofal a'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.
- Cymeradwyo cynlluniau cyn i geisiadau gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cynnal Log Penderfyniadau i gofnodi penderfyniadau gan y Bwrdd Partneriaeth.
- Cyflwyno ceisiadau i'w cymeradwyo a hawliadau am gyllid.
- Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, sefydliadau cyflawni, rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau.
- Sicrhau bod cynlluniau cyfalaf Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gynaliadwy ac wedi'u cefnogi gan wasanaethau priodol a ariennir gan refeniw.
- Sicrhau bod rhwymedigaethau pridiannau cyfreithiol a chyfyngiadau yn cael eu cyflawni a'u cofnodi'n brydlon.
- Cofnodi, monitro ac uwchgyfeirio risgiau.
- Monitro gwerth am arian ac adrodd am allbynnau a manteision.
- Sicrhau bod blaenoriaethau trawsbynciol fel datgarboneiddio, llwybrau teithio llesol a'r Gymraeg wedi'u hystyried.

## Sefydliadau cyflawni

Mae awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a darparwyr trydydd sector neu annibynnol eraill ("sefydliadau cyflawni") sy'n cyflawni prosiectau Blaenoriaeth 1, Blaenoriaeth 2 neu Flaenoriaeth 3 yn gyfrifol am:

- Ymgysylltu â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru ac eraill, fel y bo'n briodol.
- Sicrhau cytundeb Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ymrwymo cyllid y Gronfa Gyfalaf.
- Cyflwyno ceisiadau i'w cymeradwyo a hawliadau am grant, gan ddarparu'r holl dystiolaeth ategol ofynnol.
- Gweithredu pridiannau cyfreithiol a/neu gyfyngiadau priodol.

- Monitro, cofnodi ac uwchgyfeirio risgiau.
- Monitro cynlluniau'n barhaus am Werth am Arian.

## Caffael

Dylai pob sefydliad cyflawni sicrhau bod gwasanaethau dylunio arbenigol ac asiantau cyflawni priodol yn cael eu caffael yn unol â pholisïau a gweithdrefnau caffael safonol y sefydliad.

Dylai trefniadau caffael gyd-fynd â [Datganiad Polisi Caffael Cymru] hefyd.

Mae defnyddio trefniadau fframwaith cyfredol yn dderbyniol cyn belled â'u bod wedi eu dyfarnu'n briodol ac yn cydymffurfio â rheoliadau caffael cyhoeddus cyfredol.

Sector cyhoeddus Cymru yw defnyddiwr mwyaf gwasanaethau a nwyddau o'r sectorau preifat a gwirfoddol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n ceisio sicrhau manteision ar gyfer y gymuned leol o weithgarwch caffael drwy ddefnyddio dull polisi Buddion Cymunedol. Caiff y dull hwn ei gymeradwyo ymhellach gan Egwyddor 4 o Ddatganiad Polisi Caffael Cymru, sy'n datgan bod rhaid i ddarparu budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol drwy ddefnyddio polisi Buddion Cymunedol yn effeithiol fod yn ystyriaeth annatod wrth gaffael.

Mae'r dull yn cwmpasu:

- Cyfleoedd am brentisiaeth – creu cyfleoedd newydd neu ddarparu wythnosau o hyfforddiant ymarferol i brentisiaid cyfredol
- Cyfleoedd am swyddi i bobl economaidd anweithgar
- Cyfleoedd hyfforddi i bobl economaidd anweithgar
- Cyfleoedd cadw a hyfforddi i'r gweithlu cyfredol
- Hyrwyddo cadwynau cyflenwi agored a hygyrch sy'n darparu cyfleoedd i Fusnesau Bach a Chanolig ymgeisio am waith; a hyrwyddo mentrau cymdeithasol a busnesau a gefnogir
- Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn cadwynau cyflenwi
- Tâl teg
- Cyfrannu at addysg yng Nghymru drwy ymgysylltu â chwricwlwa ysgolion, colegau a phrifysgolion
- Cyfraniadau at fentrau cymunedol sy'n cefnogi trechu tlodi ledled Cymru a gadael gwaddol yn y gymuned
- Cyfleoedd i leihau effaith amgylcheddol y contract ac i hyrwyddo manteision amgylcheddol.

Mae gofyn i bob prosiect sy'n cael ei ariannu drwy Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol gymhwyso buddion cymunedol i'r 'holl' drefniadau caffael waeth beth fo'u gwerth, gan adrodd drwy ddefnyddio'r Offeryn Mesur Manteision Cymunedol[8] ar gontractau dros £2 miliwn lle gellir gwireddu buddion neu fanteision o'r fath. Mae defnyddio'r pecyn yn fodd o ddal yr ystod lawn o ganlyniadau Buddion Cymunedol, yn cynnwys swyddi, mentrau cymorth addysgol a hyfforddiant, ac mae'n cynnig ffordd gyson o fesur buddion o'r fath.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod disgwyliadau o ran pa fath o fuddion cymunedol y dylid eu targedu ac wedi cynnwys meincnodau ar gyfer y targedau hyn. Mae peth

---

[8] https://llyw.cymru/caffael-offeryn-mesur-manteision-cymunedol -

o’r data yn angenrheidiol er gwybodaeth yn unig ac nid yw’n cael ei bennu fel targed caled.

Dylid cynnwys y targedau sy’n rhan o’r contract yn yr Achos Busnes Llawn/Achos Cyfiawnhad Busnes a byddant hefyd yn cael eu cynnwys yn y llythyr dyfarnu grant pan gymeradwyir y cais am gyllid.

## Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM)

Mae gofyn i bob prosiect (annomestig) a ariennir gan Lywodraeth Cymru sydd â chost cyfalaf o dros £2 miliwn (h.y. yn cynnwys gwaith, ffioedd, costau nad ydynt yn waith, costau wrth gefn etc a TAW) a thros 1,000m2 mewn arwynebedd llawr, ymrwymo i’r safon briodol fel y’i diffinnir isod o gychwyn y cynllun.

Cynlluniau Adeiladu Newydd – sgôr RHAGOROL (wedi’u hasesu yn erbyn Adeilad Newydd BREEAM)

Cynlluniau Adnewyddu Mawr – sgôr DA IAWN (wedi’u hasesu yn erbyn adnewyddu a gosod annomestig BREEAM)

Derbynnir bod yna rai amgylchiadau eithriadol lle mae natur a chymhlethdod y gwaith yn golygu nad yw cyflawni’r lefel darged ofynnol yn realistig. Yn yr amgylchiadau hyn dylid nodi pwy fydd yn adolygu’r dystiolaeth a’r gwaith gyda thîm y prosiect i nodi lefel darged briodol sy’n sicrhau’r canlyniad gorau posibl cyn gynted â phosibl ac yn hysbysu Llywodraeth Cymru am y mater.

Mae rhagor o wybodaeth yn https://llyw.cymru/safonau-adeiladu-cynaliadwy

## Gweithio tuag at Garbon Sero Net Oes Gyfan

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030 a gostyngiad o 100% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru erbyn 2050.

Bydd gofyn i bob prosiect adeiladu newydd sy’n ymgeisio am gymorth drwy Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol, nad ydynt wedi cyrraedd y cam Achos Busnes Amlinellol, ddangos bod Carbon Sero Net yn cael ei gyflawni a gostyngiad o 20% ar y swm o garbon ymgorfforedig - hynny yw y carbon sy’n cael ei allyrru drwy ddeunyddiau adeiladu a’r broses adeiladu. Yn achos prosiectau sydd eisoes yn cael eu datblygu neu waith adnewyddu, rydym yn gwerthfawrogi bod angen cam pontio o bosibl, ond disgwylir i bob prosiect ymdrechu i weithio tuag at fod yn effeithlon o ran ynni ac i fodloni safonau perfformiad ynni arferion gorau, cefnogi’r targed o garbon sero net erbyn 2030, sicrhau bod adeiladau’n ateb y diben ar gyfer y dyfodol a chyflawni’r safonau amgylcheddol uchaf.

Ni ddylid tanamcangyfrif y newid sydd ei angen i wneud hyn; mae yna lawer o heriau technegol, heriau o ran deunyddiau, heriau datblygiadol a gweithredol sy’n rhan o fod yn garbon niwtral ‘go iawn’. Fodd bynnag, mae’r awydd i newid i’w weld ledled y gadwyn gyflenwi. Mae yna elfen o gystadlu i’w weld yn glir bellach ymhlith timau dylunio, contractwyr a gweithgynhyrchwyr deunyddiau.

Mae rhaglen y Gronfa Gyfalaf yn gyfle unigryw, a hynny yng nghanol ein cymunedau, i gymryd camau breision tuag at seilwaith iechyd a gofal cymdeithasol carbon sero net oes gyfan yng Nghymru.

Bydd achosion busnes yn destun craffu drwy'r broses arferol gyda chraffu ychwanegol ar yr elfen Carbon Sero Net. Bydd gofyn i brosiectau fonitro ac adolygu perfformiad yr adeilad yn rheolaidd dros gyfnod o bum mlynedd gan adrodd ar unrhyw wersi a ddysgwyd yn ystod y broses i dîm y Rhaglen.

Mae cyngor pellach, yn cynnwys targedau i'w cyflawni, yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei ddarparu erbyn Hydref 2023.

## Monitro'r rhaglen

Mae trefniadau monitro a gwerthuso effeithiol yn bwysig i roi sicrwydd bod cyllid cyfalaf y Gronfa Gyfalaf yn cael ei ddefnyddio'n llwyr i gefnogi nod y gronfa o gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu sef datblygu 50 hyb iechyd a gofal cymdeithasol integredig ac ailgydbwyso'r farchnad gofal preswyl.

Mae'n rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gael trefniadau monitro cadarn i sicrhau bod cynlluniau a ariennir drwy'r Gronfa Gyfalaf yn cyflawni eu hamcanion arfaethedig ar amser ac o fewn cyllideb.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal cyfarfodydd monitro bob yn ddeufis gyda phob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i adolygu cynnydd a pherfformiad ariannol. Bydd cyfarfodydd amlach yn cael eu cynnal fel bo angen, yn ail hanner y flwyddyn ariannol. Arweinwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fydd y prif bwynt cyswllt i sicrhau bod golwg strategol yn cael ei gynnal ar draws pob rhanbarth, ond gall arweinwyr enwebu cydweithwyr addas i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru os oes angen.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyflwyno adroddiadau monitro bob deufis, yn cynnwys:

- Rhagdybiaethau ariannol
- Cyflawni prosiect – amserlenni i gynnwys targedau yn ogystal ag unrhyw lithriant a nodwyd yn erbyn y proffil gwario
- Risgiau'r rhaglen a statws Coch Melyn Gwyrdd y cynllun a chynnydd y prosiect
- Allbynnau a chanlyniadau – erbyn dyddiadau penodedig, e.e. erbyn 30 Medi a 31 Mawrth
- Gwireddu manteision

Ac eithrio risgiau, mae'n rhaid i'r adrodd fod yn gryno a chrynhoi'r sefyllfa gyffredinol ar bwynt perthnasol o'r flwyddyn ariannol.

Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynnwys diweddariadau cynnydd ar eu gweithgarwch cyfalaf fel rhan o'u hadroddiad blynyddol. Gall Llywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad cyfnodol i ddangos y gweithgarwch.

Mae templed sy’n cynnwys y meini prawf a nodwyd uchod ar gyfer yr adroddiadau chwarterol wedi’u hatodi yn Atodiad [TBC ].

## Cyfathrebu a brandio

Er mwyn galluogi rhanddeiliaid a dinasyddion i ddeall sut mae’r Gronfa Gyfalaf yn gwneud gwahaniaeth bydd gofyn i’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol rannu eu cynlluniau cyfathrebu ar gyfer y Gronfa Gyfalaf yng nghyd-destun cynllunio rhanbarthol ehangach.

Mae’n rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gydnabod cymorth Llywodraeth Cymru ar yr holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd, marchnata a datganiadau i’r wasg a gynhyrchir mewn perthynas â’r cyllid a phrosiectau cysylltiedig. Mae’n rhaid i gydnabyddiaeth o’r fath gydymffurfio â chanllawiau brandio cymeradwy Llywodraeth Cymru.

Mae’n rhaid arddangos logo Llywodraeth Cymru neu logo cydnabyddiaeth ar arwyddion neu blaciau pan fydd prosiectau wedi derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru yn unol â’r canlynol https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/canllawiau-ar-gyfer-defnyddio-logo-llywodraeth-cymru-prosiectau-cyfalaf.pdf

## Cymunedau Ymarfer

Mae sawl Cymuned Ymarfer wedi’u sefydlu neu’n mynd i gael eu sefydlu sy’n cyd-fynd â’r chwe Model Gofal cenedlaethol. Bydd y Cymunedau Ymarfer yn cynnig cyfle i bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol rannu dysgu a phrofiadau i’n helpu ni i ddatblygu ein glasbrint cenedlaethol ar gyfer y Modelau hyn yn cynnwys hybiau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ac maent yn rhan hanfodol o’r rhaglen hon. Y Cymunedau Ymarfer fydd y cyfrwng allweddol i rannu enghreifftiau o arfer da, cymharu dysgu a phrofiadau, nodi meysydd ffocws, a chreu a phrofi ein hadnoddau a’n deunyddiau y gellir eu rhannu’n eang ledled Cymru. Mae gweithdai eisoes yn cael eu cynnal ar draws y Cymunedau Ymarfer cyfredol i lunio pynciau ac yn cael eu harwain gan hwylusydd wedi’i gomisiynu a fydd yn rheoli’r trefniadau rhwydweithio a gefnogir gan dîm Llywodraeth Cymru.

Mae’r Gymuned Ymarfer Gofal yn y Gymuned eisoes wedi’i sefydlu ac wedi dechrau nodi ymarfer sy’n datblygu a rhannu gwersi i gyflawni dull cyson o integreiddio gwasanaethau cymunedol. Bydd y Gymuned Ymarfer hon yn canolbwyntio ar beth sy’n cael ei gyflawni drwy Hyb, sut y gellir cynnwys yr holl bartneriaid (e.e. y gymuned, y trydydd sector, tai), sut mae trefniant Hyb yn ymgysylltu pobl â phrofiadau byw, rôl presgripsiynu cymdeithasol o fewn trefniant Hyb a datblygu dulliau i fesur llwyddiant a chanlyniadau ar gyfer Hybiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ymhellach, bydd Cymuned Ymarfer Atebion yn seiliedig ar Lety yn cael ei sefydlu, a sgyrsiau cynnar yn dechrau yn gynnar ym mis Hydref 2022 ynghylch y meysydd pwnc i ganolbwyntio arnynt.

Bydd Cymunedau Ymarfer yn cael eu sefydlu i gefnogi'r buddsoddiad cyfalaf ac yn cyflawni rôl hanfodol wrth rannu dysgu a chefnogi prosiectau a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyda'r gwaith o ddatblygu'r modelau gofal integredig yn ehangach. Bydd sianeli cyfathrebu yn cael eu sefydlu rhwng Cymunedau Ymarfer (cynllunio ac adeiladu) buddsoddiad cyfalaf a Chymunedau Ymarfer Gofal yn y Gymuned (y swyddogaethau i gyflawni dull integredig) er mwyn sicrhau bod yna cyd-rannu dysgu ac arferion da a nodi atebion, a bod deunyddiau synergedd yn cael eu datblygu sy'n cefnogi'r glasbrintiau ar gyfer y Modelau Gofal cenedlaethol.

## Mesur Llwyddiant

Y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sydd i sicrhau bod cofrestr buddion gyda llinellau sylfaen yn cael ei datblygu fel y gellir mesur llwyddiant yn erbyn hyn. Bydd gan bob prosiect unigol ei feini prawf llwyddiant ei hun. Dylai unrhyw achos busnes a ddatblygir gynnwys cofrestr buddion. Fodd bynnag, mae angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gysoni eu cofrestr buddion â Fframwaith Canlyniadau'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol a chanlyniadau lefel uchel y Model Gofal sy'n ymwneud â, er enghraifft, gofal yn y gymuned ac atebion seiliedig ar lety, ac i'r canlyniadau Modelau Gofal eraill lle mae yna gysylltiad a pherthnasedd i ddarparu'r stori o newid arfaethedig i'r grwpiau poblogaeth sy'n flaenoriaeth. Mae Llawlyfr Technegol Fframwaith Canlyniadau'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol yn darparu cyngor ymarferol ac yn awgrymu adnoddau i gasglu tystiolaeth gadarn ac ystyrlon o'r hyn sy'n gweithio yn cynnwys sut i gyflwyno astudiaethau achos o sawl persbectif.

## Manylion Cyswllt Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Gellir anfon ymholiadau i **IRCF@Llyw.Cymru**

### Atodiad 1 Model Gofal Sylfaenol i Gymru

Mae'r canlynol wedi'u nodi fel ystyriaethau pwysig wrth gynllunio modelau gofal a allai gael eu darparu mewn cyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol sylfaenol integredig:

- Nid oes un model yn addas i bawb; dylid asesu demograffeg ac anghenion poblogaeth lleol a'u hadlewyrchu mewn meysydd ffocws e.e. gallai'r ffocws fod ar faterion camddefnyddio sylweddau a diweithdra, yn ogystal â gwasanaethau ar gyfer gwasanaethau diagnostig neu reoli cyflyrau cronig.


- Mae'n werth archwilio arferion lloeren anfeddygol, i weithredu fel lefel ychwanegol o ofal ond wedi'i gysylltu â'r clwstwr ehangach o ddarpariaeth gofal.
- Mae anghenion llesiant ehangach yn dwysáu gyda ffocws ar gyfleusterau cymunedol anfeddygol (e.e. campfeydd, gerddi etc).
- Gwelliannau i wasanaethau cyfeirio a dynodi llwybrau i annog cleifion i gael cymorth yn gynnar – dull 'dim drws anghywir'.
- Mae angen capasiti ychwanegol wrth ddarparu gwasanaethau newydd – er enghraifft: triniaeth cŵyr clust, campfeydd ffisiotherapi, capasiti diagnostig optometreg. Mae angen ystyried hyn yn y gofynion gofod.
- Dylid ystyried sefydliadau cymorth y sector gwirfoddol a'r gymuned ehangach ar gyfer llety o fewn cyfleusterau iechyd a llesiant.
- Mae angen ystyried mathau priodol o wasanaethau y tu allan i oriau, gan ei bod hi'n allweddol sicrhau defnydd digonol o le a darpariaeth gwasanaethau sy'n adlewyrchu anghenion yr holl grwpiau oedran.

## Math a Maint Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig

Deellir na fydd angen i'r holl gyfleusterau fod yn ganolfan integredig fawr, ond y bydd angen gwneud gwaith i gefnogi ac uwchraddio cyfleusterau lloeren llai er mwyn darparu model gofal integredig cynhwysfawr.

Bydd yr amrywiaeth a'r math o wasanaethau a ddarperir o'r cyfleusterau'n amrywio, nid yw'r rhestr ganlynol o wasanaethau'n derfynol a dylid ei hystyried fel sylfaen ar gyfer ymgynghori a chynllunio, o safbwynt y boblogaeth leol ac yn glinigol.

- **Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol craidd:**





- **Gwasanaethau cymunedol a llesiant ehangach:**




Er na roddir gofynion penodol er mwyn caniatáu defnydd hyblyg, rhagwelir y bydd y canolfannau'n cynnwys gofod ar gyfer y canlynol, yn dibynnu ar faint a darpariaeth gwasanaethau:

- **Craidd:** Gwasanaethau a chyfleusterau sydd angen eu cynnig yn barhaus yn y cyfleuster; sy'n gofyn am fannau clinigol neu anghlinigol wedi'u clustnodi, llawn amser.
- **Sesiynol:** Gwasanaethau sy'n cael eu cynnig yn rheolaidd (dros sesiynau y cytunwyd arnynt bob wythnos) naill drwy wasanaethau lloeren, sesiynau clinigol symudol neu staff ymarfer rhan-amser; bydd cyfan o ofod clinigol yn cael ei ddyrannu o fewn pob cyfleuster ar gyfer pob gwasanaeth. Efallai y bydd hi'n bosibl darparu'r gwasanaethau sesiynol hyn mewn cyfleusterau anghlinigol hefyd (er enghraifft, siopau lleol, cyfleusterau gofal, ysgolion) i gymunedau pellennig gael gafael ar wasanaethau'n lleol.
- **Cyfnodol**: Gwasanaethau ymweld achlysurol ar adegau penodol neu ar sail ad hoc drwy gydol y flwyddyn, e.e. brechiadau ffliw neu sesiynau sgrinio iechyd cyhoeddus misol; mynediad hyblyg i lefydd a rennir y gellir eu harchebu. Mae'n bosibl y bydd modd i'r gwasanaethau cyfnodol hyn hefyd gael eu darparu mewn cyfleusterau nad ydynt yn rhai ymarfer (er enghraifft siopau lleol, cyfleusterau gofal, ysgolion) fel y gall cymunedau anghysbell gael mynediad at wasanaethau'n lleol.
- **Rhithwir/drwy dîm aml-ddisgyblaeth o bell**: mae gwasanaethau hanfodol yn cael eu darparu i gleifion a'r cyhoedd ymgysylltu o bell â nhw naill ai drwy adnoddau ar-lein neu gyfleuster ymgynghori a chwnsela digidol; mae cyfleusterau ymgynghori digidol yn cael eu dyrannu ar sail archebu a galw i mewn hefyd.

Bydd maint ac amrywiaeth y gwasanaethau a gynigir yn dibynnu ar gynllun ac angen y gwasanaeth. Datblygwyd proffil sy'n nodi ystod o fodelau yn seiliedig ar faint a darpariaeth gwasanaethau.




**Cyfleusterau Lefel 1a** – cyfleusterau sy'n wahanol i'r norm arferol o safleoedd sy'n eiddo i sefydliadau iechyd ac yn cael eu gweithredu ganddynt. Mae'r cyfleusterau hyn yn canolbwyntio ar alluogi mynediad a gwella cyfleusterau cymunedol mewn poblogaethau bach a/neu wledig. Gall y ddarpariaeth gwasanaethau y cytunwyd arni gael ei chynnig o amryw o safleoedd, nad ydynt yn Feddygfeydd traddodiadol o bosibl, gan ei darparu mewn llety a rennir sy'n hygyrch ar sail hyblyg dros nifer o ddyddiau y cytunwyd arnynt bob wythnos.

**Cyfleusterau Lefel 2a** - cyfleusterau tebyg i Lefel 1a ond mae'r lefel hon o ddarpariaeth yn cynnwys rhywfaint o gapasiti clinigol dynodedig cyfyngedig i ddarparu cyfleuster ar gyfer gwasanaethau a drefnwyd/sesiynol a gofod ble gall timau cymunedol fynd at gleifion a'u trin yn ddiogel heb ofyn iddynt deithio i gyfleusterau iechyd dynodedig mwy ar gyfer pob apwyntiad.

**Cyfleusterau Lefel 2 –** cyfleusterau sy'n debycach i bractisau bach Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol cyfredol sydd wedi'u halinio. Yn gweithredu naill ai bum neu chwe diwrnod yr wythnos gyda phoblogaeth dalgylch llai, mae'n debyg y bydd y cyfleusterau hyn yn cynnwys dau neu dri aelod o staff sefydlog (meddyg teulu a/neu nyrs practis) a gwasanaethau aml-ddisgyblaeth ychwanegol cyfnodol.

**Cyfleusterau Lefel 3** - bydd y rhain yn debyg o gynnwys rhwng pedwar a chwe meddyg teulu sefydlog, capasiti nyrsio craidd a statws hyfforddi. Dylai'r cyfleuster hwn gynnig pob Gwasanaeth Meddygol Cyffredinol o sylwedd gyda darpariaeth ehangach ar gyfer gwasanaethau ategol sy'n ymweld a gweithgareddau sy'n cael eu cychwyn yn y gymuned.

**Cyfleusterau Lefel 4** - mae'r cyfleusterau hyn yn cynnig cyfle i ddarparu hyb ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a chymunedol ar draws ardal a phoblogaeth dalgylch ehangach. Yn ogystal â gwasanaethau cymunedol craidd a datblygedig, dylai'r cyfleusterau hyn ddarparu ystod eang o adnoddau cymunedol ac iechyd sefydlog ar sail barhaol a/neu sesiynol. Mae hyn yn newid sylweddol o safbwynt capasiti gydag ystod amrywiol o gapasiti clinigol a masnachol a chyflwyniad gwasanaethau fferylliaeth sefydlog, llywio gofal a gwasanaethau cynghori ehangach.

**Cyfleusterau Lefel 5** - dylai'r cyfleusterau hyn geisio darparu gwasanaethau i boblogaeth o 35-50,000 a gallu cyfuno sawl practis. Gall y model hwn ddangos newid yn y ddarpariaeth gofal iechyd sylfaenol o ran na fyddai angen i gleifion fod wedi eu cofrestru gyda meddyg teulu neu bractis penodol ond y byddent yn gallu cael gafael ar ystod ehangach o wasanaethau integredig, yn unol â chyfarwyddyd tîm craidd o lyw-wyr clinigol cynghorol. Dylid cynllunio lleoliad y cyfleuster i sicrhau'r mynediad gorau posibl ac i gynhyrchu manteision atgyfnerthu sylweddol i'r ystad gyhoeddus.